# Mentrau Iaith: Adolygiad o arferion a siliau

## Crynodeb

Mae hwn yn gyfle cyffrous i wneud lleoliad gwaith â thâl ar brosiect i Lywodraeth Cymru. Ffocws y prosiect yw adolygiad o arferion a sgiliau datblygu economaidd lleol a chymorth busnes Mentrau Iaith. Mae'r Mentrau Iaith yn rhwydwaith o 22 o fentrau Cymraeg lleol.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio'n agos gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid i gynnal ymchwil i gefnogi swyddogion polisi Llywodraeth Cymru. Bydd yr ymgeisydd yn cael cyfle i gymhwyso sgiliau ymchwil mewn amgylchedd polisi, datblygu eu sgiliau ymchwil ymhellach (megis casglu data, dadansoddi, ysgrifennu adroddiadau a chyfathrebu canfyddiadau), a gwella eu gwybodaeth o'r cyd-destun ymchwil y tu allan i'r byd academaidd.

## Y sefydliad

Llywodraeth Cymru yw'r Llywodraeth ddatganoledig ar gyfer Cymru sy'n gyfrifol am yr economi, addysg, iechyd a'r GIG yng Nghymru, busnes, gwasanaethau cyhoeddus ac amgylchedd Cymru.

Yn benodol, bydd yr interniaeth wedi'i lleoli o fewn y gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (KAS). Mae KAS yn casglu, dadansoddi a chyflwyno ymchwil a data ar gyfer llunwyr polisïau a'r cyhoedd yn unol â safonau proffesiynol. Maent yn cynnig tystiolaeth annibynnol i ddeall, datblygu, gweithredu, monitro a gwerthuso polisïau'r llywodraeth. Mae KAS hefyd yn cefnogi cydweithwyr polisi i ddatblygu, gweithredu a chyflawni polisïau.

## Yr interniaeth

Bydd yr intern yn gweithio fel rhan o gangen ymchwil y Gymraeg. Bydd yr interniaeth yn gyfle cyffrous i weithio wrth galon Llywodraeth Cymru. Bydd yr intern yn gweithio'n agos gyda swyddogion polisi ac ymchwilwyr, a bydd cyfle iddynt roi eu sgiliau ymchwil ar waith mewn amgylchedd polisi, i ddatblygu mwy ar eu sgiliau cyffredinol (megis ysgrifennu adroddiadau a gwneud cyflwyniadau) a chyfoethogi eu gwybodaeth am bolisi.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn elwa ar gyfleoedd datblygu a gynigir yn ganolog gan Lywodraeth Cymru, a gall hyn gynnwys mentora, cysgodi, cefnogaeth gan gymheiriaid a hyfforddiant.

Bydd interniaid yn elwa ar y profiad o gydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru:

- Meithrin gwell dealltwriaeth o'r byd y tu allan i'r byd academaidd a chynyddu cyflogadwyedd, gan ddefnyddio eu gwybodaeth a'u sgiliau i gyfrannu at waith Llywodraeth Cymru.
- Gall cydweithwyr yr intern yn Llywodraeth Cymru gynnig goleuni pellach ar ei brosiect PhD a all gyfrannu at lwyddiant y thesis, yn ogystal â chyfleoedd rhwydweithio o fewn y maes polisi sy'n gysylltiedig â'r maes ymchwil
- Sgiliau a gwybodaeth trosglwyddadwy
- Sgiliau rheoli amser
- Sgiliau ysgrifennu adroddiadau

## Y prosiect

### Mentrau Iaith a datblygu economaidd: adolygiad o arferion a sgiliau

Cefndir

Mae'r Mentrau Iaith yn ceisio creu cyfleoedd i bawb i allu mwynhau defnyddio'r Gymraeg yn eu cymunedau. Sefydlwyd y Fenter Iaith gyntaf yn 1991 ac erbyn hyn mae 22 ar waith ledled Cymru. Ariennir y Mentrau Iaith drwy amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys Cynllun Grant Llywodraeth Cymru i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

Mae gwaith y Mentrau Iaith wedi'i leoli o fewn cymunedau ac yn cynnwys gweithgareddau a chynnal digwyddiadau sy'n creu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae Mentrau Iaith hefyd wedi sefydlu neu gefnogi prosiectau masnachol fel caffis, siopau, canolfannau cymunedol, cynlluniau hyfforddeion, gwasanaethau cyfieithu, meithrinfeydd a chynlluniau gofal plant. Mae rhai yn weithgar yn y maes datblygu economaidd ac, er enghraifft, wedi bod yn rhan weithredol o greu is-gwmnïau a busnesau cymdeithasol neu wedi helpu grŵpiau neu unigolion lleol i sefydlu menter neu fusnes cymdeithasol newydd.

Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno deall yn well, cyfraniad presennol a phellach y gall Mentrau Iaith ei wneud yn y maes datblygu economaidd.

Amcanion y prosiect:

- Mae'r prosiect yn cynnwys casglu a dadansoddi data cynradd ac eilaidd sy'n ymwneud â'r Mentrau Iaith a'u ymwneud â'r maes datblygu economaidd a chymorth busnes. Bydd y myfyriwr yn cyfathrebu'r ymchwil a'i chanfyddiadau i swyddogion polisi Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid ehangach, gan gynnwys y Mentrau Iaith, drwy gyflwyniadau ac

adroddiad ymchwil. Bydd y prosiect yn llywio datblygiad polisi parhaus o fewn Llywodraeth Cymru, yn ogystal â gwaith y Mentrau Iaith ledled Cymru drwy archwilio'r rhestr ganlynol o gwestiynau a themâu ymchwil.

- Pam fod Mentrau Iaith yn ymwneud â datblygu economaidd a chymorth busnes?
- Pa weithgareddau y mae'r Mentrau Iaith yn eu cynnal mewn perthynas â datblygu economaidd a chymorth busnes?
- Pa sgiliau a phrofiadau sydd gan staff y Mentrau Iaith mewn perthynas â datblygu economaidd a chymorth busnes?
- Pa hyfforddiant, uwchsgilio neu gymorth pellach fyddai o fudd i'r Mentrau Iaith yn eu hymdrechion o fewn y meysydd datblygu economaidd a chymorth busnes?

Bydd y prosiect yn cynnwys y camau canlynol:

- Casglu a thrin data eilaidd, gan gynnwys llenyddiaeth a dogfennaeth sydd ar gael ynglŷn â'r Mentrau Iaith a'u ymwneud a'r maes datblygu economaidd lleol a chymorth busnes.
- Casglu data drwy gyfweliadau lled-strwythuredig gyda swyddogion y Mentrau Iaith a rhanddeiliaid ehangach.
- Dadansoddiad o'r data eilaidd a chynradd a gasglwyd.
- Datblygu astudiaethau achos yn seiliedig ar arferion da a/neu arloesol, i'w cynnwys yn yr adroddiad a'u rhannu ag ymarferwyr.
- Dod i gasgliadau yn seiliedig ar ddadansoddiad y data.

Allbynnau disgwyliedig y prosiect

- Cyflwyno'r canfyddiadau i swyddogion polisi Llywodraeth Cymru.
- Cyflwyno'r canfyddiadau a rhannu'r gwersi a ddysgwyd/arferion da gyda'r Mentrau Iaith.
- Adroddiad ymchwil cynhwysfawr sy'n manylu ar y data a gasglwyd, dadansoddiad a chasgliadau.

## Cyfrifoldebau a gofynion yr interniaeth

Bydd yr interniaeth yn para am gyfnod o 3 mis, gyda'r opsiwn o estyniad, ac yn ystod y cyfnod hwn bydd y sefydliad cartref yn rhewi prosiect PhD y myfyriwr. Bydd y myfyriwr yn cael ei dalu'r hyn sy'n cyfateb i'w dâl (stipend) yn ystod ei interniaeth. Yn ogystal â gwyliau blynyddol, gellir trefnu amser ar gyfer ymrwymiadau PhD drwy drafod gyda'r rheolwyr llinell, e.e. cyfarfodydd grwpiau ymchwil a chyflwyniadau cynhadledd. Anogir ceisiadau gan fyfyrwyr rhan-amser.

Rhagwelir y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio mewn ffordd hybrid rhwng adref ac un o swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn ystod ei interniaeth. Gall hyn newid yn ddibynnol ar bolisi Llywodraeth Cymru. Bydd unrhyw newidiadau i drefniadau gweithio yn cael eu trafod gydag ymgeiswyr llwyddiannus.

Bydd yr interniaeth yn para am gyfnod o 3 mis amser llawn neu'r hyn sy'n cyfateb yn rhan-amser. Ar gyfer myfyrwyr sydd wedi'u cofrestru yn rhan-amser, mae'r interniaeth hon ar gael yn rhan-amser dros gyfnod hwy (dim llai na thri diwrnod yr wythnos waith), i'w negodi rhwng Llywodraeth Cymru a'r ymgeisydd llwyddiannus. Os hoffech gael eich ystyried ar sail ran-amser, nodwch eich dewis oriau gwaith ar y ffurflen gais.

## Manyleb myfyriwr

### Rhaid bod gan y myfyriwr:

- sgiliau rheoli prosiectau da;
- y gallu i arwain a rheoli prosiect ymchwil yn annibynnol;
- sgiliau adolygu llenyddiaeth cryf gan gynnwys y gallu i syntheseiddio ystod eang o dystiolaeth i'w gwneud yn hawdd ei ddeall i gynulleidfa nad yw'n arbenigol;
- dealltwriaeth o sut y gall ystod o ffynonellau a mathau o dystiolaeth gyfrannu at sylfaen dystiolaeth;
- sgiliau priodol i gynnal cyfres o gyfweliadau lled-strwythuredig, gan gynnwys adnabod ac ymgysylltu â darpar gyfwelwyr; datblygu canllawiau trafod; cynnal, cofnodi a dadansoddi'r data mewn modd priodol a moesol. Rhaid i'r myfyriwr hefyd feddu ar y gallu i gynnal cyfweliadau yn Gymraeg a Saesneg;
- y gallu i gyflwyno canfyddiadau ymchwil i ymarferwyr a swyddogion polisi yn Gymraeg a Saesneg;
- y gallu i gynhyrchu dogfennau cryno, wedi'u hysgrifennu'n dda, gan gyflwyno deunydd technegol mewn fformat hygyrch yn Gymraeg a Saesneg.

## Dyddiad dechrau'r interniaeth

Rhwng Mai a Tachwedd 2025 (union ddyddiad i'w drafod). Efallai y bydd rhywfaint o hyblygrwydd yn dibynnu ar amgylchiadau unigol.

## Cyllid a chostau

Gellir talu costau teithio a llety rhesymol i fyfyrwyr nad ydynt wedi'u lleoli yng Nghaerdydd fel arfer. Dylai ceisiadau fod yn gyson â chanllawiau YGGCC. Ni fydd ceisiadau gan fyfyrwyr sydd angen cyllid ychwanegol ar gyfer teithio a llety yn cael eu trin yn llai ffafriol. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am hyn, cysylltwch â Carole Baker yn y YGGCC ar: enquiries@wgsss.ac.uk

## Diogelwch

Mae gweithdrefnau fetio Llywodraeth Cymru (sy'n berthnasol i staff dros dro yn ogystal â staff parhaol) yn cynnwys cwblhau ffurflen gais Safon Ddiogelwch Safonol ar gyfer Personél (BPSS) a Holiadur Diogelwch ar gyfer y broses fetio.

Mae'r broses hon yn gofyn i'r ymgeisydd gyflwyno tri math gwreiddiol o ddogfen adnabod. Dylai un o'r rhain fod yn ddogfen â llun (pasbort, trwydded yrru newydd), dylai un ddogfen ddangos y cyfeiriad presennol, a gallai'r trydydd math fod yn fil cyfleustodau, tystysgrif geni, P45 neu P60.

## Ymholiadau

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r post neu'r broses ymgeisio i Dyfan Powel dyfan.powel@gov.cymru.